

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Tachwedd 2018

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (y Pwyllgor) ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 mewn perthynas â'r meysydd polisi o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Cynulliad Cenedlaethol ar y gyllideb ddrafft, y bwriedir ei chynnal ar 4 Rhagfyr 2018.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

2. Ar 2 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion amlinellol ar gyfer cyllideb ddrafft 2019-20, gan nodi'r dyraniadau ar gyfer prif grwpiau gwariant y gyllideb. Cyhoeddwyd y cynlluniau gwariant manwl ar gyfer 2019-20, ynghyd â chynlluniau cyfalaf dangosol i 2020-21, ar 23 Hydref 2018.

3. Fel y nodwyd yn y ddogfen cynigion manwl, "Cyllideb i greu Cymru well", mae'r gyllideb yn dechrau ar ei nawfed flwyddyn o'r cyfnod hwn o gyfyngiadau a chynni ariannol parhaus. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod ei chyllideb 5 y cant yn is mewn termau real, ar sail tebyg i debyg, yn 2019-20 nag ar ddechrau'r degawd yn 2010-11. Mae hyn yn cyfateb i £800 miliwn i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

4. Mae'r cynigion manwl hefyd yn amlinellu gwaith Llywodraeth Cymru i osod dull ataliol o gynllunio ariannol, sydd wedi ennill momentwm yn y gyllideb ddrafft hon. Mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, wedi cytuno ar ddiffiniad cyffredin o atal.¹ Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Gadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Cyllid i ddarparu'r diffiniad cytunedig hwn.

¹ Cynigion manwl, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cyllideb i greu Cymru well, Hydref 2018



Dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb

- 5.** Ym mis Gorffennaf 2017, nododd y Pwyllgor nifer o faterion y byddai'n anelu at eu blaenoriaethu dros y 12 mis nesaf.² Fel rhan o hyn, cytunodd y Pwyllgor i fonitro gwaith parhaus yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a fyddai hefyd yn helpu i lunio rhaglen waith y Pwyllgor.
- 6.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod craffu strategol a rheolaidd ar Lywodraeth Cymru a chyrrff statudol perthnasol yn rhan bwysig o'i rôl. Ar 11 Gorffennaf 2018, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Seneddol, "Cymru Iachach, cynllun iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru". Roedd y sesiwn hon a gynhaliodd y Pwyllgor yn disodli sesiwn graffu ariannol yn ystod y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru.
- 7.** Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ac yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Seneddol, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth gan fyrddau iechyd a chynrychiolwyr llywodraeth leol i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y sylwadau ysgrifenedig hyn. Nid ydym wedi darparu crynodeb manwl o'r dystiolaeth ysgrifenedig hon. Gellir dod o hyd i'r papurau ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.
- 8.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar 7 Tachwedd 2018 ar gyllideb ddrafft 2019-20.
- 9.** O safbwynt cyllid ar gyfer chwaraeon, cymerwyd tystiolaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon 15 Tachwedd 2018.

MEG Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Crynodeb

- 10.** Yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020, Prif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (MEG) yw £8,347 miliwn, sef cynnydd o 5.4 y cant mewn termau real o gyllideb atodol 2018-19. Mae hyn yn cynnwys:

² Blaenoriaethu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 2017-18

- Adnodd £7,813 miliwn: cynnydd o 5.2 y cant mewn termau real;
- Cyfalaf o £373 miliwn: cynnydd o 0.7 y cant mewn termau real; a
- £131 miliwn o Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

11. Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi dros £500 miliwn o arian refeniw ychwanegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn 2019-20. Mae hyn yn cynnwys y cynnydd arfaethedig o £220 miliwn i gau bwlch Nuffield³ a £287 miliwn yn ychwanegol o ganlyniad i'r codiad mewn cyllid ar gyfer y GIG yn Lloegr. O'r £287 miliwn yn ychwanegol, bydd £192 miliwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflwyno *Cymru Iachach*, cynllun newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd £94.6 miliwn yn ariannu cytundeb tâl yr [Agenda ar gyfer Newid](#).

13. Y prif newid arall yn y gyllideb ddrafft yw'r £195.3 miliwn a ddyrennir i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cynnwys trosglwyddiadau o wahanol linellau gwariant y gyllideb (BELs) o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a ddaeth yn weithredol o 1 Hydref 2018, yw'r un corff newydd sy'n gyfrifol am gomisiynu, cynllunio a datblygu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG yng Nghymru. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd cynnydd pellach yng nghyllideb Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cael ei weithredu mewn cyllidebau atodol yn ystod 2019-20 i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau'n llawn i'r sefydliad.⁴

Iechyd

Newid trawsnewidiol

14. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn nodi "Rydym wedi cymryd dull o weithredu yn yr hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20 a 2020-21, gyda phwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth o wasanaethau iechyd

³ Y swm blynyddol a nodwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield sydd ei angen i dalu costau cynyddol y GIG a'r galw cynyddol, sy'n gysylltiedig yn bennaf â phoblogaeth sy'n heneiddio.

⁴Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019/20 ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

a gofal cymdeithasol integredig, di-dor ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn Cymru Iachach, ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol”.⁵

15. Ar wahân i'r cyllid ychwanegol o £192.4 miliwn i gyflwyno gweledigaeth *Cymru Iachach*, £94.6 miliwn ar gyfer y cytundeb tâl yr Agenda ar gyfer Newid, a throsglwyddiadau o £195.3 miliwn o fewn y MEG ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru, nid yw tablau cyllideb 2019-20 yn dangos fawr ddim newid ers cyllideb derfynol 2018-19. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet ddweud mwy wrthym am y dull a ddefnyddiodd wrth ddatblygu cynlluniau gwariant ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y rownd gyllidebol hon. Dywedodd wrthym:

“We have baseline assumptions about staff costs, which are broadly predictable. We have a cost base for major organisations, health boards’ trusts, and then we have ‘A Healthier Wales’ underpinning what we’re doing as well. So, that’s a guide...”⁶

16. Ychwanegodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol fod llawer o'r penderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn a chanlyniadau. Dywedodd am y dull *Cymru Iachach*:

“...the idea around integration, seamless provision of health and social care, more wellness, more prevention, and rather than focusing on an illness service having a wellness service. That underpins a lot of the drive behind the funding decisions as well.”⁷

17. Mae Rhaglen Trawsnewid Llywodraeth Cymru yn cael ei harwain gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, gyda chefnogaeth Bwrdd Trawsnewid traws-sector. Y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd y prif sbardun newid ar lefel leol, ac mae cynigion y gyllideb yn cynnwys cyllid ychwanegol o £30 miliwn yn 2019-20 i gefnogi'r Byrddau yn y rôl hon.

18. Bydd y Gronfa Trawsnewid amser-cyfyngedig (£100 miliwn dros ddwy flynedd - £50 miliwn y flwyddyn yn 2018-19 a 2019-20) yn cefnogi profi modelau gofal newydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r broses o drawsnewid y gwasanaeth fod yn weithgaredd craidd ar gyfer pob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol.

⁵ Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft 2019/20 ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 5

⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 6

19. Yn ddiweddar ymatebodd Conffederasiwn GIG Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft gan ddatgan:

“there is limited flexibility to shift significant investment away from treatment services when the current demands on the health service are so great. It is for this reason that transformation needs to happen not only at pace, but at scale, with the outcomes that matter most to patients being the key priority.

...

If these new models of care are to be successful, a collective ambition and an acceptance that change in the way we deliver services are absolutely necessary. For any change to be successful the Welsh Government, the National Assembly and the public must acknowledge that the priorities for health services in Wales will need to be re-assessed and delivery targets set accordingly.”

20. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid, cyfeiriodd Conffederasiwn GIG Cymru at rai materion allweddol i'w hystyried:

- a oes lle yn y gweithlu i allu treulio amser yn datblygu modelau gofal newydd;
- yr angen am arian trawsnewid / pontio fel y gallwch gynnal dau wasanaeth cyn gallu tynnu un gwasanaeth yn ôl i ddarparu un arall; a
- yr angen i gael y gwerth mwyaf o'r adnoddau sydd gan y GIG eisoes (mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd).

21. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu ariannu'r broses o drawsnewid gwasanaeth yn y tymor hwy y tu hwnt i fywyd dwy flynedd y Gronfa Trawsnewid:

“Rydym yn glir y bydd ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gwirioneddol integredig a di-dor yn cael ei chyflawni dros y blynyddoedd i ddod drwy ailganolbwyntio'r £9 biliwn y mae Cymru yn ei wario ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol o amgylch y Nod Pedwarplyg.”⁸

⁸Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019/20 ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn hyderus bod digon o arian i gefnogi trawsnewid, yn ogystal ag ail-ffocysu'r arian a gaiff ei wario ar wasanaethau'r GIG yn y tymor hwy, ac heb effeithio ar y gwasanaethau presennol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen ystyried capasiti sefydliadau o fewn y system a'r system gyfan, yn ogystal â pharodrwydd partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i gydweithio i gyflawni'r trawsnewid hwnnw.⁹ Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...the point about the new systems that we’re testing and supporting with the transformation fund is that it does allow us some double running, and it does allow us to test the bids that are made, essentially, saying, ‘We can deliver a better service to release money or to use money in a more effective way.’”¹⁰

23. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei ddisgwyliad i sefydliadau addasu'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau.¹¹

24. Dywedodd Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, bod cyllid o fewn y system, o safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol, i ganiatáu cynnal dwbl, o ganlyniad, nid yn unig i'r Gronfa Trawsnewid, ond peth o'r arian sydd wedi'i roi yn uniongyrchol o ganlyniad i'r gyllideb hon i wasanaethau cymdeithasol.¹² Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod yr Adolygiad Seneddol, sy'n sail i'r trawsnewidiad, wedi ei gwneud yn glir nad yw hyn yn galw am adnoddau ychwanegol. Dywedodd:

“What they did was look at the system as it currently is, looked at what was being funded through the integrated care fund over many years, what was working, and their analysis was you can achieve this transformation—they'd like to see additional funding, but you can achieve this transformation by changing the way in which you do things, by real, genuine, meaningful integration, from the front-end delivery, through the strategic level, and at all points. And that comes to the point of leadership. And it is leadership that we're consistently working, both at Welsh Government level, regional partnership boards—but it does require pace, and leadership, and commitment, relentlessly, at all levels of the system, to make it work. Some of these won't be seen within budget lines—although we've put some additional funding in

⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 13

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 14

¹¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 15

¹² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 16

there to do this transformation—but it's more to do with that core transformation of that £9 billion. And we will consistently say what we achieve through ICF, through transformation funding, in social services and health and integration, the only way of making this binding and meaningful is changing the way that we do things on a day-to-day, bread-and-butter basis, with that £9 billion.”¹³

25. Disgrifiodd Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru rai o'r ffyrdd y gellid datgloi'r cyllid craidd ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, Esboniodd fod lle o fewn y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i gau bwlch Nuffield, ac y byddai ffocws ar archwilio amrywiaeth glinigol, gwella effeithlonrwydd, ac ymagwedd bartneriaeth yn allweddol:

“...the unlocking really has got to come from different partnership working that I think has got a lot more focus on more efficient use of resources. We can't take our eye off that; there is an opportunity for greater efficiency and productivity within the £9 billion. More importantly, though, it's about outcomes—how can we start to drive a different debate about effectiveness?”¹⁴

26. Rhoddodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i warchod gwariant gwasanaethau cymdeithasol a chyfeirio gwariant drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Eglurodd y Gweinidog ei fod, drwy ddewisiadau cyllideb a symud tuag at gydweithio, comisiynu ar y cyd a chyfuno cyllidebau, yn gallu darparu sicrwydd hirdymor dros fuddsoddiad sylweddol i ddarparwyr gofal iechyd.¹⁵ Nododd y Gweinidog fod enghreifftiau llwyddiannus o ariannu dwbl, fel menter Stay Well@home Cwm Taf, yn darparu arbedion ariannol o £1.6 miliwn, o ganlyniad i ddewisiadau buddsoddi gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.¹⁶ Ychwanegodd:

“at this moment, it's a combination of making sure that as much money as we can is within the system of health and social care, but, secondly, we change the system so that we get more value for money.

¹³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 17

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 28

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 30

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 31

Because that £1.6 million of financial savings each year is significant savings that can be redeployed elsewhere.”¹⁷

27. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a yw wedi ystyried ble y caiff cyllidebau eu dal yn y dyfodol ac ai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fyddai yn y sefyllfa orau i ddsbarthu arian yn lle llywodraeth leol, er enghraifft. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen rhoi ystyriaeth bellach i strwythur a llywodraethu arian. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor ddisgwyl symudiadau i'r cyfeiriad hwn: “because it's very clear in ‘A Healthier Wales’—regional partnership boards are a big driver for change”.¹⁸

28. Mae tystiolaeth ysgrifenedig byrddau iechyd i'r Pwyllgor yn dangos yr her wrth gyflawni newid i'r gwasanaeth. Wrth ystyried eu gwariant ar ofal sylfaenol dros y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn awgrymu nad yw'r newid mewn adnoddau tuag at ofal sylfaenol, sydd wedi bod yn ganolog i bolisi'r GIG yn y blynyddoedd diwethaf, yn cael ei wireddu. Er bod rhai byrddau wedi darparu enghreifftiau o wasanaethau yn cael eu symud o ysbytai i leoliadau cymunedol a rhagor o gleifion yn cael eu trin mewn gofal sylfaenol, mae'r gyfran o wariant ar ofal sylfaenol wedi parhau'n gyson, ar y cyfan, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae cyfrifon blynyddol byrddau iechyd hefyd yn dangos bod gwariant ar ofal sylfaenol wedi gostwng 5 y cant mewn termau real o 2010-11 i 2017-18.

29. Dywedodd Alan Brace, y Cyfarwyddwr Cyllid wrthym nad yw Llywodraeth Cymru yn adnabod y ffigur hwn. Dywedodd:

“I think that came from the Wales Audit Office's ‘A Picture of Public Services’ report, and we pointed out to them that the only difference in that comparator—. Well, there were a couple of differences, but the main one...was that medicines spend, which was included in the definition of primary care, was actually being managed really well and was fairly static. And then, when they did the comparison, that looked like there was a cut in real terms, and there wasn't. Wales Audit Office agreed with that, in terms of that, technically, that wasn't the correct picture of what was going on, but it does still seem to be quoted that we have reduced it.”¹⁹

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 32

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 36

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 44

Ein barn ni

30. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r broses o drawsnewid y gwasanaeth fod yn weithgaredd prif ffrwd ar gyfer pob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol, ac mai eu cyllid craidd a gaiff ei ddefnyddio i gyflawni'r newid. Mae gennym bryderon dwfn ynghylch a fydd y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gallu cyflawni hyn, o gofio'r pwysau a nodwyd o ran galwadau a chostau, a methiant parhaus y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd i gadw'u pen uwchlaw'r dŵr.

31. Rydym yn croesawu'r £100 miliwn sy'n cael ei roi drwy'r Gronfa Trawsnewid ar gyfer prosiectau braenaru. Hoffai'r Pwyllgor sicrwydd y caiff defnydd ac effaith y Gronfa hon eu monitro'n effeithiol, yn enwedig o ran ei defnyddio i gefnogi prosiectau sy'n wirioneddol drawsnewidiol a mesuradwy, a bod iechyd meddwl yn cael yr un cydraddoldeb ag iechyd corfforol wrth ystyried ceisiadau. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa.

32. Credwn fod achos dros archwilio dull mwy cyfannol o gyllido gan na fydd blaenoriaethau deiliaid cyllidebau yn cael eu cyfeirio gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Trafodir hyn ymhellach yn y bennod ar ofal cymdeithasol.

33. Rydym yn nodi sylwadau'r Cyfarwyddwr Cyllid nad yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ffigur o 5 y cant o ostyngiad i gyllid gofal sylfaenol. Rydym yn ymwybodol bod y ffigur hwn, sydd hefyd wedi cael ei adrodd gan Swyddfa Archwilio Cymru,²⁰ yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfrifon blynyddol y byrddau iechyd. Mae hefyd yn wir bod tystiolaeth ysgrifenedig y byrddau iechyd i'r Pwyllgor yn dangos bod cyfran eu gwariant a gaiff ei wario ar ofal sylfaenol wedi parhau'n gyson ar y cyfandros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn peri pryder difrifol i ni. O ystyried y ffocws polisi ar symud gofal allan o ysbytai, byddem wedi disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn lefel y gwariant ar ofal sylfaenol, ond mae'r dystiolaeth a welwyd yn dangos nad yw hyn yn digwydd. Credwn fod hyn yn dangos yr heriau sy'n wynebu byrddau iechyd wrth fynd ati i drawsnewid y gwasanaeth, o ystyried y pwysau parhaus y maent yn eu hwynebu yn y sector aciwt, er enghraifft. O gofio bod cyfeiriad y gwasanaethau, fel y nodir yn *Cymru Iachach*, tuag at ddarparu gwasanaethau i'w cynnal ym maes gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, rydym yn bryderus iawn na fydd yr arian arfaethedig ar gyfer gofal sylfaenol yn ddigonol i gefnogi'r amcan hwn.

²⁰ [Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Darlun o ofal sylfaenol yng Nghymru](#), Ebrill 2018

Sefyllfa ariannol y byrddau iechyd

34. Y ddyletswydd ariannol gyntaf o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yw'r gofyniad ar fyrddau iechyd lleol (BILI) i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd.


35. Fel rhan o'n gwaith craffu y llynedd ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru, ceisiodd y Pwyllgor edrych yn fanwl ar sefyllfa ariannol bresennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Soniwyd am siom y Pwyllgor nad yw holl gyrff y GIG wedi cyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf yn llawn a bod pedwar o'r saith Bwrdd yn nodi diffyg mewn o leiaf un o'r tair blynedd blaenorol. Yn benodol, mae'n peri pryder bod Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn nodi diffyg ym mhob un o'r blynyddoedd 2014-15 i 2016-17.

36. Mae cyfrifon blynyddol byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru ar gyfer 2017-18, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 14 Mehefin 2018, yn dangos bod perfformiad yn y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2018 yn adlewyrchu hynny yn ystod y cyfnod tair blynedd cyntaf (Ebrill 2014 - Mawrth 2017), gyda holl Ymddiriedolaethau'r GIG yn cyflawni'r ddyletswydd ariannol statudol gyntaf. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod yr un pedwar Bwrdd Iechyd (Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, Abertawe Bro Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro) wedi methu â gweithredu o fewn eu dyraniadau gwariant refeniw.

37. Yn 2017-18, gosododd Llywodraeth Cymru y cyfansymiau rheoli ariannol uchaf posibl o ran dyled ar gyfer y byrddau iechyd canlynol:

- Abertawe Bro Morgannwg £36.0 miliwn (diffyg gwirioneddol £32.4 miliwn);
- Betsi Cadwaladr £26.0 miliwn (diffyg gwirioneddol £38.8 miliwn);
- Caerdydd a'r Fro £30.9 miliwn Caerdydd a'r Fro (diffyg gwirioneddol £26.9 miliwn); a
- Hywel Dda £58.9 miliwn (diffyg gwirioneddol £69.4 miliwn).

38. Dyma'r sefyllfa ddiwethaf am y tair blynedd yn diweddu 2017-18 ar gyfer byrddau iechyd lleol:



39. Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff y GIG yng Nghymru yn paratoui Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd dreigl a bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo hyn. Mae hwn yn ofyniad blynyddol.


40. Ar gyfer 2017-18, roedd y pedwar bwrdd iechyd a fethodd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf hefyd wedi methu â chael Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo.

Perfformiad ariannol **Byrddau Iechyd Cymru** 2015-16 i 2017-18

● A yw corff y GIG wedi nodi gwarged neu ddiffyg ym mhob blwyddyn. O dan y **ddyletswydd ariannol gyntaf**, mae'n ofynnol i gyrrff y GIG fantoli'r gyllideb drosy tair blynedd hyd at 2017-18.

○ A yw corff y GIG wedi bodloni'r **ail ddyletswydd ariannol** i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig oes ac iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion (gofyniad blynyddol)


 Cyflawni  Heb ei gyflawni




Perfformiad ariannol **Byrddau Iechyd Cymru** 2015-16 i 2017-18

● A yw corff y GIG wedi nodi gwarged neu ddiffyg ym mhob blwyddyn. O dan y **ddyletswydd ariannol gyntaf**, mae'n ofynnol i gyrrff y GIG fantoli'r gyllideb drosy tair blynedd hyd at 2017-18.

○ A yw corff y GIG wedi bodloni'r **ail ddyletswydd ariannol** i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig oes ac iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion (gofyniad blynyddol)

 Cyflawni  Heb ei gyflawni



41. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am ddiweddariad o'r sefyllfa ynghylch ad-dalu diffygion y byrddau iechyd a adroddwyd yn 2016-17 a 2017-18. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad yw'r pedwar sefydliad sydd â chynlluniau mewn cyflwr cynyddol wael mewn sefyllfa i ad-dalu diffygion sydd wedi cronni. Ond mae disgwyl i'r byrddau iechyd hyn gael rheolaeth o'u harian a symud i sefyllfa lle mae ganddynt gynlluniau tair blynedd ar waith. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

²¹ Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwirio.cyflwr.ariannol.byrddau.iechyd.lleol.ac.Ymddiriedolaethau'r.GIG.yng.Nghymru, 19 Mehefin 2018

“I’m more optimistic about Cardiff and Vale for the year ahead. We’re looking for ABM to make more progress over the next six to 12 months as well. I’m not expecting either Hywel Dda or Betsi Cadwaladr to come up with a three-year plan for the next financial year or within the next financial year, but I do expect to see further improvement. What I don’t want to do is to start to introduce an expectation, and whilst those organisations are in their current position of needing to repay money in this year as well, because I don’t think that will be very helpful.”²²

42. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd angen i’r byrddau iechyd gynllunio i ad-dalu’r diffyg dros gyfnod o amser ac y gall y Pwyllgor ddisgwyl gweld mwy o gynnydd yn y flwyddyn ariannol hon.²³

43. Wrth edrych i’r dyfodol, fe soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am ei ddisgwyliadau am welliannau pellach, a bod y byrddau iechyd sy’n byw ar hyn o bryd o fewn eu cyllideb, yn parhau i wneud hynny hefyd.²⁴

44. Nododd y Pwyllgor fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau mewn mesurau arbennig, a sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwneud â’r heriau a wynebir o ran arweinyddiaeth a darparu gwasanaethau.²⁵

45. O ran Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol unigol o £14.4 miliwn yn 2015-16 a 2016-17, i gydnabod yr heriau ariannol sy’n wynebu’r bwrdd iechyd. Ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol yn ystod 2017-18, hyd nes y cynhelir adolygiad o sylfaen costau’r bwrdd iechyd. Roedd yr adolygiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn canolbwyntio ar bedwar gyriant costau gofal iechyd a chanfuwyd bod dau ffactor - demograffeg a maint - yn creu costau gormodol i’r Bwrdd na ellid eu hosgoi, ond nad oedd y ddau ffactor arall - pellter ac effeithlonrwydd - yn creu costau gormodol. Mewn ymateb i’r adolygiad, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Hywel Dda yn cael cyllid ychwanegol rheolaidd o £27 miliwn o 2018-19 ymlaen.

46. Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yr anawsterau y mae Hywel Dda yn eu hwynebu o ran byw o fewn ei fodd os yw’n parhau i ddarparu gwasanaethau fel y mae ar hyn o bryd. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet

²² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 54

²³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 54

²⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 54

²⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 56

sylw at y ffaith ei bod yn amlwg, yn dilyn yr adolygiad cyllideb cwbl gynhwysfawr, bod angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'i her ariannol ehangach.²⁶

47. Yn ddiweddar, tynnodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** sylw at yr arafwch siomedig yn sgil cynyddu ac ymyrryd - heb sôn am y pryderon hirdymor bod byrddau iechyd Betsi Cadwaladr, Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda wedi bod yn destun trefniadau cynyddol am o leiaf ddwy flynedd, ac a ddaeth i ben yn 2017-18 gyda diffygion sylweddol o hyd.²⁷ Dyma a ddywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"If you look at the reality of where we are and the additional discipline that we've introduced across the health system, you are seeing movement in the right direction and you're seeing movement at a level and a pace that we have not seen in the past."²⁸

Ein barn ni

48. Rydym yn nodi nad yw uchelgeisiau a gofynion *Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014* wedi cael eu gwireddu'n llawn gan holl gyrff y GIG, ond bod cynnydd wedi'i wneud gan fyrddau iechyd penodol. Fodd bynnag, rydym wedi ein siomi gan analluogrwydd parhaus nifer o fyrddau iechyd i reoli eu harian. Hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet am y rhesymau y tu ôl i'r anawsterau parhaol mewn rhai byrddau iechyd, a pha asesiad a wnaed o'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu hanallu parhaus i gynnal disgyblaeth ariannol. **Credwn ei bod yn hanfodol bwysig deall i ba raddau y gallai hyn fod yn deillio o faterion rheoli ar lefel bwrdd iechyd unigol, neu faint y gallai fod yn deillio: er enghraifft, o'u dyraniadau cyllid.**

Iechyd meddwl

49. Yn 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau i neilltuo dyraniadau refeniw iechyd meddwl i fyrddau iechyd gyda'r nod o ddiogelu buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

50. Mae cynigion cyllideb ddrafft manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn pwysleisio mai iechyd meddwl yw'r maes unigol mwyaf o ran gwariant y GIG. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £675 miliwn ar wasanaethau iechyd meddwl yn 2019-20. Mae £20 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y gyllideb

²⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 56

²⁷ **Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Dr Andrew Goodall**, 4 Hydref 2018

²⁸ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 59

ddrafft hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, fel rhan o gytundeb cyllideb dwy flynedd Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru.

51. Gwyddom fod byrddau iechyd eisoes yn gwario mwy ar iechyd meddwl na'r dyraniad a neilltuwyd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl ac yn cael ein perswadio gan awgrym Conffederasiwn GIG Cymru y gall lefel yr angen am wasanaethau iechyd meddwl fod yn sylweddol uwch na'r lefelau gwariant presennol.²⁹

52. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a yw'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn bodloni lefel yr angen. Gofynnwyd hefyd a oes digon o ddata cadarn yn cael eu casglu er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn effeithiol yn y maes hwn. Yn ei ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y gwaith o gasglu data yn mynd rhagddo:

“We are looking and relooking again at the data we have. I met the Wales Alliance for Mental Health this week. We talked about the progress that is being made and the further progress we still need to make on some of the data sets—what we publish and what we share—so that we'll have better information again.”³⁰

53. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen:

“Together for Mental Health' has taken us further forward, but the progress on mental health is only in part due the money we spend in health, and an understanding of the need that we have, because, as you know, it's a cross-Government priority to recognise that improving the mental health of the nation requires a different national conversation. It requires action outside the health service and it requires health to be an outward-looking partner with other services.”³¹

54. Mae £2.5 miliwn yn ychwanegol ar gael yn y gyllideb ddrafft hon drwy'r MEG Addysg, wedi'i dargedu'n benodol at wella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc. Bydd £15 miliwn o'r arian ychwanegol ar gyfer *Cymru Iachach* yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni mewn ysgolion, cymorth iechyd meddwl parhaus i bobl ddigartref, a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y

²⁹ [Papur tystiolaeth Conffederasiwn GIG Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20](#)

³⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 64

³¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 64

dull newydd ysgol gyfan o ystyried iechyd meddwl a lles, sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadernid Meddwl](#), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

55. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y sector addysg yn bartner arbennig o bwysig, a bod y grŵp gorchwyl a gorffen a gaiff ei gadeirio ar y cyd â rhanddeiliaid yn ystyried sut i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn. Ychwanegodd:

“So, it’s partly about money, it’s partly about understanding and need and us keeping our promises to put more money into mental health services, but it is at least as much about how we use that money and how we see the impact that other partners can and do make on improving the mental health of the nation...”³²

56. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd yn awgrymu bod diffyg data am weithgarwch gwasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol a lleoliadau cymunedol. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthym nad oedd unrhyw brosesau arferol ar gyfer olrhain gwariant i ganlyniadau.³³

57. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda phartneriaid i gytuno ar ba ddata y dylid eu mesur a sut y cânt eu casglu. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod rhai canlyniadau cadarnhaol eisoes ar amrywiaeth o fesurau prosesau. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen mwy o waith o ran gwasanaethau iechyd meddwl plant:

“We know that in the child and adolescent mental health services, we still need to do more—we have a more challenging target than other parts of the UK.”³⁴

58. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod gwaith yn cael ei wneud i benderfynu pa ddata interim y gellir eu cyhoeddi, a sut y bydd hynny'n llywio cynlluniau yn y dyfodol.³⁵

59. Mewn [tystiolaeth ysgrifenedig](#) i ymchwiliad diweddar y Pwyllgor i atal hunanladdiad yng Nghymru, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

³² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 65

³³ [Papur dystiolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg](#)

³⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 67

³⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 68

“Mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar ddatblygiad set ddata craidd iechyd meddwl, fydd yn ein caniatáu i gipio gwybodaeth ddibynadwy, gyson ledled Cymru. ... Bydd y set ddata’n cael ei hadeiladu i mewn i System Gwybodeg Gofal Cymunedol Cymru, fydd yn gwella’r berthynas rhwng darparwyr gwasanaeth ac yn gwneud y trosglwyddo rhwng y gwasanaethau’n rhwyddach i’r unigolion sy’n ceisio mynediad at gefnogaeth.”

60. Ymhelaethodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pwynt hwn. Dywedodd:

“The Welsh Community Care Information System, which is still on course to be developed within the timetable we originally laid out—by 2022. It’s progressing well, and the mental health core data set will feed into that as well. Because, to come back to that theme of seamless integration of services and support, it’s the WCCIS that will actually provide that joined-up data sharing between front-line providers to make sure that those individuals at the end of it are having the right outcome.”³⁶

61. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallem ddisgwyl hyblygrwydd ynghylch yr hyn a gaiff ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl wrth i’r setiau data ddatblygu. Dywedodd wrthym:

“We plan on what we know now and as the robustness and the quality of information that we have change, we will, of course, look to meet the need that exists in every part of the service, including, of course, here in mental health.”³⁷

Ein barn ni

62. Rydym yn croesawu’r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, rydym yn dal yn effro i anghysondeb y ddarpariaeth bresennol a’r gofynion cynyddol, ac yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol.

63. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i roi gwybod inni am ddull arfaethedig y Pwyllgor o ystyried materion sy’n ymwneud ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc o fewn ei waith o graffu ar y

³⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 69

³⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 71

gyllideb ddrafft. Rydym yn ymwybodol o'i bryderon ynghylch tryloywder gwariant yn y maes hwn, y gyfran o arian a gaiff ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a digonolrwydd cyllid i gefnogi'r "dull ysgol gyfan" a ddisgrifir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad Cadernid Meddwl. Rydym yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft, sydd wedi'u hanelu at sicrhau y darperir adnoddau digonol ar gyfer gwella iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc.

64. Hoffem weld mwy o fanylion am yr union wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y set ddata craidd iechyd meddwl, yr amserlenni ar gyfer datblygu'r data yn llawn, a sut y bydd hyn yn gwella'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, mesur canlyniadau, ac olrhain effaith y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl.

65. Gofynnwyd i fyrddau iechyd i ba raddau y mae cyllid a ddyrannwyd ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau eraill, er enghraifft, pan mae gan gleifion ddiagnosis sylfaenol o gyflwr iechyd meddwl ond mae angen triniaeth arnynt ar gyfer cyflyrau iechyd eraill.³⁸ Nid oedd eu hymatebion yn darparu'r eglurder roeddem yn chwilio amdano, ac rydym yn pryderu o hyd ynghylch a yw trefniadau ariannu, gan gynnwys yr arian a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng dull gyfannol at ddiwallu anghenion unigolyn, a sicrhau bod adnoddau ar gyfer iechyd meddwl yn cael eu diogelu. Byddem yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn.

Gweithlu iechyd

66. Fel y disgrifiodd Conffederasiwn GIG Cymru yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, er bod systemau a gwasanaethau yn darparu ffocws ar gyfer newid, y gweithlu sy'n cynrychioli'r ased mwyaf wrth ddarparu gofal a chyflawni'r newidiadau sydd eu hangen.

67. Mae ymatebion y byrddau iechyd i'r Pwyllgor yn darparu enghreifftiau o gamau a gymerwyd i wella cynaliadwyedd eu gweithlu, gan gynnwys, er enghraifft, gwella rhestrau dyletswyddau, cefnogi lles gweithwyr a lleihau absenoldeb oherwydd salwch, strategaethau recriwtio a chadw wedi'u targedu, a datblygu rolau newydd / gwell.

³⁸ Papur tystiolaeth Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

68. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda bod ganddo bolisi datblygu mewnol o fuddsoddi drwy gefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd i symud ymlaen i lwybrau ffurfiol o hyfforddiant nyrsio.³⁹

69. Fel y nodir yn *Cymru Iachach*, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth hirdymor o ran gweithlu. Y dyddiad targed ar gyfer hyn yw diwedd 2019.

70. Mewn tystiolaeth lafar, soniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y gwelliannau i'r broses o gynllunio gweithlu yr oedd yn disgwyl ei weld o'r buddsoddiad yn AaGIC:

“...we’re in a better position to have that oversight, both as a source of intelligence and knowledge about the workforce we have, as well as the ability to plan for the workforce that we’ll want in the future to meet current and future need.”⁴⁰

71. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet mai un peth nad oedd wedi digwydd oedd “a joined-up national conversation on how we use the capacity we have within our system to train our future staff and then how we go about making sensible use of that”.⁴¹

72. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet i ba raddau y mae'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i ymateb i'r pwysau o ran gweithlu, gan gynnwys datblygu, recriwtio a hyfforddi, yn hytrach na chefnogi'r gwaith o ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio fel y disgrifir yn *Cymru Iachach*. Nododd y bydd angen i'r gyllideb gyfredol newid, trwy'r gyllideb atodol, wrth gasglu rhagor o wybodaeth. Fodd bynnag, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet yr angen i ystyried pa mor effeithiol y defnyddir yr arian a mabwysiadu dull mwy cyfannol o ddarparu. Dywedodd:

“Some of that won’t be about money; it will be about leadership, it’ll be about cultural change, and it will then be about making a smarter choice about how we use that money. So, that is part of the mission that HEIW have. You won’t see that in a budget line, but you should see that in the outcomes we deliver, not just with how much money we use, but actually how those staff are trained.”⁴²

³⁹ Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 4 Hydref 2018

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 108

⁴¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 108

⁴² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 111

73. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn cydnabod gwahaniaethau o ran amodau gwaith a thâl a diffyg cydraddoldeb rhwng staff gofal cymdeithasol a staff gofal iechyd. Dywedodd wrthym fod y mater yn cael ei gyflwyno weithiau fel rhwystr rhag cyflwyno system integredig a di-dor, a chyfeiriodd at wneud dewisiadau o fewn y gyllideb i alluogi sefydliadau i weithio'n ystyrlon. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod realiti gwahanol gyfraddau tâl yn y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol ac yn nodi y byddai angen mynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig a hirdymor.⁴³

74. Cefnogodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y farn hon gan awgrymu bod ffyrdd mwy integredig o weithio yn dod â'r materion hyn i'r amlwg. Dywedodd wrthym fod pethau y gellir eu gwneud ar unwaith:

“...last year, the £90 million that we put into the living wage; the additional money that we put in this year to the living wage; dealing with things like call clipping within Wales, which we've already taken measures on; things like the professionalisation of the workforce and the voluntary move towards the registration of domiciliary care, followed by mandatory. We are looking at it now for residential care...All of those things are to do with esteem...We can't do it overnight because we know the pressures on the systems. But, we do need to look at those terms and conditions, and we want to.”⁴⁴

75. Ychwanegodd y Gweinidog bod angen i'r gwasanaeth rheng flaen fod yn ddi-dor, ond hefyd bod angen i'r gwaith hyfforddi a datblygu fod yn ddi-dor, fel bod staff sy'n symud ar draws llwybrau yn ei weld fel gyrfa.⁴⁵

76. Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y gweithlu iechyd a nododd fod hyn yn bryder arbennig o fewn y gwasanaeth ambiwlans. Mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Tachwedd 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chanfyddiadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol i Adolygu Galwadau Oren:

“Ambulance handover delays and staff sickness need immediate attention through a whole-system approach and improved staff well-being. I expect health boards and the Welsh Ambulances Services NHS Trust to work with partners to take responsibility for these issues and to

⁴³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 124

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 126

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 127

take immediate action to address them. We will of course monitor progress closely.”⁴⁶

77. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu'r gweithlu iechyd presennol yn eu rolau. Dywedodd wrthym y bydd y “Nod Pedwarplyg”, sef y pedwar nod sy'n gefnogol i'r amcanion a fydd yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer y ffordd y bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu yng Nghymru, fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Seneddol, yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn ynghyd â mesurau eraill a ddaw drwy gytundebau tâl a rheoli absenoldeb.⁴⁷

78. Ychwanegodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru y bydd rôl AaGIC yn ategu'r dull hwn o weithredu. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod cynnydd i'w wneud o hyd o ran cyfraddau salwch ac absenoldeb ar draws sefydliadau yng Nghymru.⁴⁸

79. Awgrymodd Dr Goodall y gall maint fod yn ffactor, gyda sefydliadau llai fel Canolfan Ganser Felindre yn dangos cyfraddau is, gan ei fod, efallai yn gallu ymdrin â'i rhai cysylltiadau â'r staff ychydig yn wahanol.⁴⁹ Nododd y gwaith rhagorol a wneir yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wneud cynnydd gwirioneddol yn y maes hwn. Ychwanegodd:

“...I think we are going to have to deploy a more national focus, as well as some choices that people make in their local services. Some choices are, for example, do we leave occupational health services as a local mechanism? Do we elevate that to perhaps more of a national network of occupational health services? How do we underpin and support primary care in some respects? These are some of the choices that we have to make, I think, going forward.”⁵⁰

80. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon dro ar ôl tro ynghylch materion ariannu sy'n gysylltiedig â'r gweithlu iechyd, gan gynnwys y costau y mae'n rhaid i'r

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2018, para 132

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 114


⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 115

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 116

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 117

GIG eu talu o ran costau asiantaeth a locwm.⁵¹ Tynnwyd sylw at hyn yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft y llynedd, ac a ddangosir yn y tabl isod:

Ffigur 4: Costau Staff Asiantaethau i Fyrddau Iechyd Lleol, 2013-14 i 2016-17 (£'000)



81. Mae rhai byrddau iechyd wedi gallu dangos gostyngiad mewn gwariant asiantaeth, er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, yn tynnu sylw at gynnydd yn y gwariant ar staff asiantaeth nyrsio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (yn rhannol i fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016), a bod staffio yn parhau i fod yn her mewn rhai arbenigeddau meddygol.⁵²

82. Dywedodd Dr Andrew Goodall wrthym y bydd rôl AaGIC yn y gwaith o wella'r gweithlu, fel y maes hwn, yn bwysig, ac mae arbediad o £30 miliwn dros y 12 mis diwethaf eisoes wedi'i gyflawni. Ychwanegodd y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yn yr adolygiadau canol blwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn, ond hefyd yn y bwrdd gwerth ac effeithlonrwydd y mae'n Gadeirydd arno.⁵³

Ein barn ni

83. Rydym yn nodi sicrwydd y byrddau iechyd eu bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'u gweithlu ac yn parhau i bryderu am y cynnydd araf a wneir yn y maes hwn.

84. Rydym yn disgwyl bod y gwaith a wneir gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru o ran cynllunio'r gweithlu yn cael yr effaith a fwriedir.

⁵¹ Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19, Rhagfyr 2017

⁵² Papurau tystiolaeth Bwrdd Iechyd Lleol

⁵³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 119

Rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu strategaeth y gweithlu yn yr hirdymor.

85. Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth clir rhwng gweithwyr y sector gofal iechyd a gweithwyr y sector gofal cymdeithasol, fel y mae rhanddeiliaid wedi ei nodi gyda ni'n rheolaidd. Credwn fod hyn yn rhwystr sylweddol rhag integreiddio gwasanaethau yn llwyddiannus. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddechrau mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydaddoldeb o ran parch ac rydym yn cydnabod bod hon yn her hirdymor o gofio'r problemau hanesyddol anodd gyda'r sector gofal cymdeithasol o'i gymharu ag iechyd. Fodd bynnag, hoffem gael rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ar oblygiadau ariannol mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn, a'r cynllunio cyllidebol hirdymor a all fod ei angen i gefnogi'r newid hwn.

86. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru o ran defnyddio ffocws cenedlaethol mewn perthynas â mynd i'r afael â salwch staff yng ngweithlu'r GIG. Hoffem gael rhagor o wybodaeth ynghylch pa gynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gofal cymdeithasol

87. Ariennir gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn rhannol drwy'r grant cynnal refeniw (RSG). Cafodd Setliad Llywodraeth Leol dros dro 2019-20 ei nodi mewn datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2018. Mae hwn yn rhoi manylion y dyraniadau cyllid craidd ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer 2019-20.

88. Cyfanswm y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2019-20 (gan gynnwys cyllid ychwanegol (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau)) yw £4,214 miliwn o'i chymharu â £4,226 miliwn ar gyfer 2018-19, gostyngiad o 0.3 y cant, neu 2 y cant mewn termau real.

89. Mae adroddiad 2017 rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025,⁵⁴ A delicate balance? Health and social care spending in Wales yn tynnu sylw at y canlynol:

⁵⁴ Mae rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 bellach wedi'i throsglwyddo i Ganolfan Llywodraethiant Cymru.

- Nid yw gwariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol ar gyfer pobl dros 65 oed yn cyd-fynd â'r twf ym mhoblogaeth pobl hŷn;
- Mae'r boblogaeth gynyddol dros 65 oed yng Nghymru yn golygu bod gwariant fesul person hŷn wedi gostwng dros 12 y cant mewn termau real dros y cyfnod (2009-10 i 2015-16) (mae ffigurau wedi'u diweddarau yn awgrymu bod gwariant y pen wedi gostwng 14.4 y cant rhwng 2009-10 a 2016-17);
- Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd angen gwario "yn agos at ddwbl" ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i bobl hŷn rhwng 2015 a 2030. Bydd gwella ansawdd a dibynadwyedd data am angen / galw yn hanfodol er mwyn cynllunio ar gyfer hyn.

90. Yn ei ddatganiad, soniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod y setliad llywodraeth leol yn cynnwys £20 miliwn pellach er mwyn ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol. Mae £30 miliwn ychwanegol y tu allan i'r setliad llywodraeth leol hefyd ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd, gan gynnwys pwysau'r gweithlu yn y cartref.

91. Gofynnwyd i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol pa mor hyderus oedd y byddai'r £20 miliwn ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a gynhwysir yn y setliad llywodraeth leol yn cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw, o gofio'r pryderon a fynegwyd gan lywodraeth leol ynglŷn â lefel y setliad yn gyffredinol. Dywedodd wrthym:

"I think we're as confident as can be on the basis that local government has repeatedly said to us that this is one of its big pressure points, despite the fact that we've repeatedly tried to protect, to the very best of our ability, spending on social care."⁵⁵

92. Ychwanegodd efallai y bydd awdurdodau lleol am ddefnyddio'r arian mewn ffyrdd gwahanol i fynd i'r afael â gwahanol anghenion eu poblogaeth. Fodd bynnag, mae'r defnydd a fwriedir o ran yr arian ychwanegol yn glir ac felly, rhagwelir y bydd yn cael ei wario'n uniongyrchol ar wasanaethau cymdeithasol.⁵⁶

93. Cadarnhaodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro'r £20 miliwn ychwanegol sy'n mynd yn uniongyrchol i'r gwasanaethau cymdeithasol, gan fod prosesau penodol eisoes ar gyfer monitro sut mae

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 74

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 75

awdurdodau lleol yn cyflawni o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014.⁵⁷

Pwysau ar ofal cymdeithasol

94. Roedd adroddiad Sefydliad Iechyd 2016, The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019-20 and 2030-31 yn amcangyfrif y bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol yn codi 4.1 y cant y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-31, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb ddyblu bron i £2.3 biliwn dros y cyfnod hwn er mwyn bodloni'r galw. Rhybuddiodd yr adroddiad y byddai cynnydd o ran angen nas diwallwyd mewn gofal cymdeithasol sydd heb ei ariannu'n ddigonol yn debygol o arwain at gynydd yn y galw am wasanaethau'r GIG.

95. Yn 2017-18, roedd 23 y cant o wariant refeniw gros awdurdodau lleol⁵⁸ yng Nghymru ar wasanaethau cymdeithasol. Y maes gwariant hwn yw'r ail uchaf o ran awdurdodau lleol, ar ôl addysg, sy'n cynnwys 33 y cant o wariant refeniw gros.

96. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfrifo bod £67 miliwn o fwllch cyllido ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol unwaith y bydd y £50 miliwn ychwanegol yn y gyllideb ddrafft hon (sy'n cynnwys y £20 miliwn pellach yn y setliad llywodraeth leol a'r £30 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol) yn cael ei ystyried (heb unrhyw gynydd mewn treth gyngor).

97. I ymateb i bryderon CLILC, dywedodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol wrthym "we work within the envelope that we currently have".⁵⁹ Nododd y Gweinidog bod angen ystyried sut y gellir gwario'r arian mewn ffordd gydgyssylltiedig, yn lleol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac ar lefel strategol. Dywedodd:

"This is challenging and it's difficult, but we need to spend it well, and that does mean then, I have to say, deciding both at a regional level with the £30 million, at a local level with the money that we're putting in directly under social services, when things work, to keep on doing

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 77

⁵⁸ Gwariant refeniw gros yw cyfanswm gwariant yr awdurdod lleol ar wasanaethau, ynghyd â chostau ariannu dyledion, ond heb unrhyw incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau a ffynonellau eraill nad ydynt yn derbyn grantiau. Mae'n cynnwys gwariant a gaiff ei ariannu gan grantiau penodol ac arbennig y llywodraeth a gwariant a gaiff ei ariannu o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol.

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 82

them. When things are less efficient, then make those choices locally as to what you actually don't do, because there's a better way of providing it.”⁶⁰

Talu am ofal

98. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Rhyng-Weinidogol ar dalu am ofal cymdeithasol, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Bydd y grŵp yn archwilio'r ystyriaethau polisi perthnasol sy'n gysylltiedig â chyflwyno ardoll gofal cymdeithasol, gan gynnwys modelau gofal cymdeithasol yn y dyfodol sy'n datblygu. Bydd hefyd yn ystyried y gwaith a wneir gan yr Athro Gerald Holtham ar ardoll gofal cymdeithasol.

99. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, amlinellodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y pum ffrwd gwaith y mae'r grŵp Rhyng-Weinidogol yn ymgymryd â hwy, sy'n cynnwys ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r cyhoedd ehangach. Dywedodd fod gwersi wedi'u dysgu o enghreifftiau blaenorol ac felly roedd gwaith paratoadol manwl yn mynd rhagddo er mwyn creu consensws a chael cefnogaeth y cyhoedd.⁶¹ Dywedodd y Gweinidog:

“We've done our own population-needs assessment; we've seen the results of some of the surveys looking at the impacts of a rising, ageing population. It brings lots of good opportunities with it, but it brings challenges as well. So, on that basis, we think it's right that we look at this, but we do it in a considered way.”⁶²

Ein barn ni

100. Er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol a gaiff ei ddarparu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft hon, a'r cyllid ychwanegol arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol a gyhoeddwyd yn natganiad Llywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd 2018, mae gennym bryderon difrifol ynghylch lefel yr arian ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gyffredinol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r lefel ariannu bresennol yn ddigonol i ateb y galw, ac y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu gyda thoriadau parhaus i gyllidebau llywodraeth leol ynghyd â'n poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd mewn cyflyrau cronig.

101. O gofio bod y cyfeiriad rydym yn teithio tuag ato o ran gwasanaethau, fel y nodir yn *Cymru Iachach*, tuag at integreiddio llawer mwy a galluogi mwy o bobl i

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 81

⁶¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 84

⁶² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, para 85

gael gofal mor agos â phosibl i'w cartref, credwn na ellir ystyried cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ar wahân i gyllid iechyd. Credwn, fel mater o reidrwydd, y dylid archwilio dull mwy cyfannol tuag at gyllido iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynnal cyllidebau ar y cyd.

Chwaraeon

102. Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon sy'n gyfrifol am chwaraeon elitaidd a strategaeth a pholisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon cymunedol, gweithgareddau corfforol a hamdden egnïol yng Nghymru.

103. Yn 2019-20, dyrennir £22.3 miliwn i chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Mae cynigion dyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn nodi:

“Rydym wedi cynnal y cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar ei lefel gyfredol o £22.3 miliwn y flwyddyn, gan dynnu sylw at ein hymrwymiad i godi lefelau gweithgareddau corfforol a phwysigrwydd atal afiechyd.”⁶³

Ysgolion bro

104. Mewn tystiolaeth i'w ymchwiliad i weithgaredd corfforol plant a phobl ifanc, clywodd y Pwyllgor alwadau i ysgolion ddarparu mynediad ehangach i'r gymuned i'w cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol er mwyn caniatáu ar gyfer gweithgaredd corfforol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn awyddus i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n ehangach a dywedodd bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar y rhwystrau rhag cynnig defnydd o'r cyfleusterau. Mae **llythyr** dilynol gan Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud y bydd gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn cefnogi llunio canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer ysgolion bro, i'w cyhoeddi yn 2019.

105. Pan ofynnwyd mewn tystiolaeth lafar am bwysigrwydd defnyddio asedau cymunedol, gan gynnwys ysgolion cymunedol, i gefnogi'r agenda gweithgaredd corfforol, dywedodd David Rosser, Cyfarwyddwr Chwaraeon Llywodraeth Cymru mai mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yw hwn. Roedd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn cydnabod hyn a dywedodd fod

⁶³ Cynigion manwl, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, Cyllideb i greu Cymru well, Hydref 2018

trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru.⁶⁴

Ein barn ni

106. Credwn fod gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, sy'n gyfrifol am strategaeth a pholisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, rôl glir i'w chwarae o ran gwthio'r agenda hon, a gofynnwn am ragor o wybodaeth am y camau gweithredu penodol y bydd ei adran yn eu cymryd i sicrhau bod asedau cyhoeddus megis ysgolion yn cael eu hagor er mwyn cynyddu mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgaredd corfforol i gymunedau lleol.

Mynediad cyfartal at chwaraeon

107. Caiff arian Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon ei sianelu drwy Chwaraeon Cymru. Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a ffyrdd bywiog o fyw.

108. O'r £22.3 miliwn a ddyrannwyd i chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn y gyllideb ddrafft hon, mae £22.1 miliwn o hyn ar gyfer Chwaraeon Cymru. Dywed Llywodraeth Cymru:

“Chwaraeon Cymru yw ein prif asiant darparu ar gyfer chwaraeon ac mae'n canolbwyntio ar wella cyfranogiad ar lefel gymunedol er mwyn gwella'r manteision i les cyffredinol ac i greu amgylchedd i athletwyr talentog gyflawni eu potensial yn llawn.”⁶⁵

109. Mae [llythyr cylch gwaith](#) diweddaraf Llywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, yn ymrwymo Chwaraeon Cymru i fuddsoddi ymdrech ac adnoddau “lle bo'u hangen fwyaf, pan fo amrywiaethau arwyddocaol o ran cyfranogiad a phan fo diffyg cyfleoedd neu ddiffyg dyhead i gymryd rhan mewn gweithgareddau egniol”. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad mwy eglur at yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hysbys, megis y bwlch rhwng y rhywiau, a diffyg mynediad i'r anabl i chwaraeon.

110. Gofynnwyd i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon sut mae cynnydd yn cael ei fesur wrth wella mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol i ferched a menywod ledled Cymru. Dywedodd y

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paras 36-38

⁶⁵ [Cynigion manwl Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cyllideb i greu Cymru well](#), Hydref 2018

Gweinidog ei bod yn ofynnol i Chwaraeon Cymru gasglu'r data hwn. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau cydraddoldeb i gefnogi'r gwaith o gyflwyno polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Ychwanegodd:

“...it’s about ensuring that there are role models in all aspects of public life, where we have an opportunity to make appointments or to organise activities through the bodies that we fund, and make it absolutely clear that it is part of the funding package that people receive...that they are expected to respond to the Government’s strategies. And we will ensure that the message...will be reinforced in the remit letters.”⁶⁶

111. Cadarnhaodd David Rosser, Cyfarwyddwr Chwaraeon Llywodraeth Cymru fod dulliau ar gyfer olrhain gwariant yn y maes hwn. Dywedodd wrthym y byddai'n disgwyl i gyllid ar gyfer cyrff chwaraeon yn y dyfodol gael ei gysylltu'n llawer agosach â lefelau cyfranogiad gwirioneddol a dileu anghydraddoldeb, neu fynd i'r afael ag anghdraddoldeb, yn hytrach na dim ond nifer yr aelodau.⁶⁷

112. Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro gwariant yn y maes hwn ar gyfer grwpiau cymdeithasol eraill, cadarnhaodd David Rosser mai felly y mae, gan ddweud:

“Disability Sport Wales is one of the biggest recipients of funding. It’s probably in the top five recipients of funding from Sport Wales, and I think does an excellent job. There are also programmes run with, for example, BME Sport Cymru...they’re specifically providing closed sessions for BME females to swim, for example. So, there’s actually quite a lot of creative work going on in this area, and the monitoring is being tightened and more focused towards those areas.”⁶⁸

Ein barn ni

113. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog bod mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol rhwng gwahanol grwpiau'r boblogaeth yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ac yn ofyniad o ran yr arian a ddarperir i Chwaraeon Cymru. Hoffem weld cyfeiriad mwy eglur at hyn yn llythyrau cylch gwaith Chwaraeon Cymru yn y dyfodol.

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 42

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 46

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 51

114. Rydym yn siomedig o ran canfyddiadau adroddiad Cyflwr y Genedl 2018 Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru, a gyhoeddwyd yn yr wythnos yn dilyn ein sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft gyda'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Dangosodd adroddiad yr arolwg nad yw lefelau cyfranogi ymysg disgyblion yng Nghymru wedi cynyddu o'r rhai a arsylwyd yn 2015. Canfu, hefyd, fod y gwahaniaethau hirsefydlog mewn lefelau cyfranogi yn parhau'n amlwg, gyda disgyblion benywaidd a disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn llai aml. Mae'n bryder bod y gwahaniaeth mewn cyfraddau cyfranogi rhwng y mwyaf breintiedig a'r mwyaf difreintiedig wedi cynyddu.

115. Rydym yn pryderu bod canfyddiadau Chwaraeon Cymru ei hun yn ymddangos yn wahanol i'r darlun mwy cadarnhaol a gyflwynodd y Gweinidog wrth roi tystiolaeth i'n Pwyllgor. Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog ar wahân ynghylch y mater hwn yn benodol.

116. Byddem yn awyddus i gael gwybodaeth fanwl bellach gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos effaith gwariant ar lefelau cyfranogi ymysg gwahanol grwpiau, ac yn nodi sut mae'r effaith hon yn cael ei monitro a'i defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at ryw, oedran, anabledd, ethnigrwydd, a statws economaidd-gymdeithasol.

Ardoll y diwydiant diodydd meddal

117. Cyhoeddwyd yr Ardoll Diwydiant Diodydd Meddal yng nghyllideb Llywodraeth y DU yn 2016, a'i gweithredu o fis Ebrill 2018.

118. Yn ei ddatganiad cyllideb yn ystod gwanwyn 2017, cadarnhaodd Canghellor y DU, Philip Hammond, y bydd y cyllid a gaiff Llywodraeth y DU o'r ardoll diodydd meddal yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni chwaraeon a byw'n iach mewn ysgolion.

119. Ym mis Ebrill 2018, dywedodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru wedi cael £57 miliwn o ddyraniadau Barnett rhwng 2016-17 a 2019-20, yn dilyn y cynnydd mewn gwariant ar raglenni yn Lloegr sydd wedi'u datganoli i Gymru o ganlyniad i'r refeniw a ddisgwylir gan yr ardoll diwydiant diodydd meddal. Wrth ateb Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

“In line with established practice, any new funding is allocated to reflect Welsh priorities and needs.

We have allocated funding across a range of health and educational activities to improve outcomes for children in Wales. As outlined by the First Minister on 20 March 2018, these include:

- More than £14m through the Revenue Support Grant each year to enable local authorities to maintain free schools breakfasts;
- Additional funding of £1.5m over three years (2017-18 to 2019-20) for the new School Holiday Enrichment Programme;
- £15.7m over four years to support childhood immunisation in primary schools;
- £100m over 2018-19 and 2019-20 for a transformation fund in health.”⁶⁹

120. Pan ofynnwyd a oedd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon wedi trafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y defnydd posibl o gyllid canlyniadol ar gyfer gweithgaredd corfforol yng Nghymru, cafodd y Pwyllgor ei sicrhau gan y Gweinidog y byddai'n codi'r mater.⁷⁰

Ein barn ni

121. Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dewis clustnodi'r cyllid canlyniadol y mae'n ei gael o'r ardoll diwydiant diodydd meddal i fynd i'r afael â gordewdra a gwella lefelau gweithgaredd corfforol, a'n dealltwriaeth yw mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad yw wedi dilyn y trywydd hwn. Mae hyn, yn ein barn ni, yn gyfle a gollwyd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt ar hyn, a sicrhau bod cyllid o'r ardoll yn cael ei ddefnyddio i gynyddu gweithgaredd corfforol a lleihau'r baich gordewdra yng Nghymru. Rydym yn croesawu'e hyn a ddywedodd y Gweinidog y bydd yn codi'r mater hwn gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth yn bersonol ac rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Cynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru

122. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod “gweithgaredd corfforol” yn llawer ehangach na chwaraeon. Mae nifer o elfennau o weithgaredd corfforol yn amlwg y tu hwnt i bortffolio'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, felly mae

⁶⁹ WAQ76307, atebwyd ar 11 Ebrill 2018

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, paras 68-71

dull cydweithredol yn allweddol, fel y nodwyd ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog.

123. Mae hyrwyddo gweithgaredd corfforol yn galw am gydweithio ar draws ystod o sectorau, cyrff cyhoeddus ac adrannau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd, addysg, trafnidiaeth a'r amgylchedd, yn ogystal â chwaraeon. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau nad yw newidiadau diweddar portffolio Llywodraeth Cymru, a oedd yn gwahanu chwaraeon a gweithgaredd corfforol oddi wrth iechyd, yn cael effaith niweidiol ar lunio polisiau cydgysylltiedig.

124. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai Chwaraeon Cymru sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Gweinidog am ei farn am gynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon yn sgil pryderon ynghylch tueddiadau parhaus yn incwm y Loteri Genedlaethol, y sialensau cyllidebol anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol mewn cysylltiad â gwasanaethau a chyfleusterau anstatudol, a cholli arian Ewropeaidd ym maes y celfyddydau a chwaraeon. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"I would be misleading the committee if I had thought at all it was possible for us to replace the substantial funding that Wales has received in terms of European funding. We are in an extremely difficult situation. And you're also quite right about the lottery situation. I've had discussions with Camelot, and I have overall responsibility for...the way lottery funds are dispersed in Wales...of course [the budget] becomes £34 million funding when we look at the lottery contribution. And it's key that we can, if possible, through working with Camelot...ensure that there isn't a further reduction in the lottery funding in Wales."⁷¹

125. Gofynnwyd pa gynlluniau tymor hir sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â mater cynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon. Awgrymodd y Gweinidog fod yr opsiynau'n gyfyngedig ac efallai mai defnydd mwy effeithiol o gyllidebau a rennir yw'r unig ffordd ymlaen a bod hyn eisoes yn digwydd.⁷²

Ein barn ni

126. Mae gennym bryderon difrifol am gynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Credwn y bydd effaith gyfunol toriadau i gyllideb llywodraeth leol, gostyngiadau yn arian y loteri, a cholli arian Ewropeaidd ar ôl i'r DU ymadael â'r

⁷¹ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 93

⁷² Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 96

UE, yn arwain at lai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru. Bydd hyn yn tanseilio'r agenda ataliol yn ddifrifol, a bydd goblygiadau hirdymor ar gyfer iechyd a lles poblogaeth Cymru. Nid yw'n dderbyniol nad oes gan Lywodraeth Cymru gynllun clir ar waith i liniaru hyn, a hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru.

127. Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd safiad cryf wrth ymdrin â Chamelot i sicrhau na fydd Cymru'n colli arian y loteri, sy'n gcyfrannu'n sylweddol at arian ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei drafodaethau gyda Camelot.

Ffrydiau ariannu tymor hwy

128. Ym mis Ebrill 2018, dywedodd cyrff llywodraethu chwaraeon wrth ymchwiliad gweithgaredd corfforol y Pwyllgor fod ffrydiau ariannu blwyddyn gan Chwaraeon Cymru yn gwneud cynllunio hirdymor yn anodd. Dywedodd Chwaraeon Cymru:

“Unfortunately, it’s not within our gift, so it is based on the one-year funding that we get from the Welsh Government. But very good news is that they have told us that they will be looking at longer-term funding agreements in line with Government funding, so, that is a real positive for us. What we do do is provide indicative long-term funding, so we will give up to four years indicative funding, but we do recognise that that is always with a caveat. So, it’s still very difficult for partners to be able to long-term plan. And we recognise that that’s an issue, but we have had very positive conversations now that our remit letter will take forward a longer-term funding programme.”⁷³

129. Gofynnwyd i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon a oedd wedi ystyried symud i gylchoedd cyllid o dair blynedd i gefnogi cynllunio tymor hwy, fel ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd iawn pan rydych yn ymdrin â chronfeydd cyhoeddus pan na wyddoch beth fydd y bloc cyffredinol am gyfnod priodol”.⁷⁴ Ychwanegodd:

“We recognise the issue. Most outside bodies would prefer certainty of funding over a longer period. This year, we’ve only been given a one-

⁷³ Cofnod y Trafodion, 19 Ebrill, para 177

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 109

year indicative budget by the finance department, by the finance Minister, so that's what we've been able to pass on to Sport Wales."⁷⁵

Ein barn ni

130. Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid bod ffrydiau ariannu un flwyddyn gan Chwaraeon Cymru'n gwneud cynllunio strategol, hirdymor yn anodd, ac rydym yn cytuno y gall cyllid sydd ond wedi'i gadarnhau yn y tymor byr gael effaith negyddol ar effeithiolrwydd a chynaliadwyedd prosiectau.

131. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog fod hyn yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch yr arian y mae'n ei gael gan Drysorlys EM. Fodd bynnag, byddem yn nodi bod anghysonderau ynghylch hyd cylchoedd cynllunio ariannol mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yng Nghymru, er enghraifft, yn gweithredu cylch cynllunio tair blynedd. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i roi trefniadau cyllido tymor hwy ar waith i alluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i gynllunio'n fwy strategol.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2018, para 111